CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION - IONAWR 2016

DYDDIAD	Nos Fercher, 20 Ionawr 2016
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	**Ysgol Rhostryfan**

a)	**Croeso** Rhoddwyd croeso cynnes i bawb gan yr Is-Gadeirydd Rhys Owen gan yr oedd y Cadeirydd Neal Williams yn rhedeg yn hwyr. Yn bresennol roedd Les Williams, Jason Hunt, Gwilym Ll Williams, Michelle Williams, Elwyn Jones, Gwilym V Thomas, Nerys Evans, Tom Ellis, Neal Williams. Hefyd yn bresennol roedd y Clerc Caryl E Lewis.
b)	**Ymddiheuriadau** Dim i'w nodi. Nid oedd Cyng Aeron M Jones yn bresennol.
c)	**Datgan Buddiant** Dim i'w nodi
d)	**Cadarnhau cofnodion 18 Tachwedd 2015** Cadarnhau eu bod yn gywir.
e)	**Materion i'w trafod:** **a) Tir ger Sain** Nododd y Clerc nad oedd unrhyw ddiweddariad pellach wedi ei dderbyn gan yr Uned Gorfodaeth Cynllunio. Er hyn bydd yn parhau i ofyn am ddiweddariad misol. **b) Diolch i Priffyrdd, cyngor Gwynedd am ymateb mor sydyn i faterion. (RO)** Y Clerc yn nodi ei bod wedi pasio'r diolchiadau ymlaen at Meirion Williams, Adran Priffyrdd. Roedd yn gwerthfawrogi hyn gan nodi ei fod yn ceisio cael ymatebion mewn da bryd cyn ein cyfarfodydd ond yn ymddiheuro os nad ydy hynny yn bosib bob amser. **c) Parcio ger siop sglodion Rhosgadfan (AMJ)** Clerc yn nodi ei bod wedi adrodd wrth Uwch Reolwraig Gofal Stryd Bethan Owen ac yn aros am ymateb. Mae hyn i weld yn fwy o broblem yn y nos ac yn ystod y penwythnos. Clerc yn nodi na fydd yn cysylltu gyda heddlu ar y pwynt yma ond wedi argymell y dylai Cyngor Gwynedd daclo'r broblem ar y cyd gyda nhw. **d) Cae Ysgol Rhosgadfan (AMJ)** Gohirio nes cyfarfod nesaf yn absenoldeb AMJ. **e) Llifogydd (AMJ)** Gohirio nes cyfarfod nesaf yn absenoldeb AMJ. **f) Bin Sbwriel y Fynwent (NE)** Clerc yn nodi ei bod wedi archebu bin brown ychwanegol ar gyfer y fynwent. **g) Meddygfa Rhostryfan (NE)** Clerc wedi derbyn ymateb yn nodi fod yr oriau agor yn y drws i bawb weld ond fod y feddygfa yn gorfod cau o dan amgylchiadau annisgwyl fel salwch. Aelodau yn parhau i fynegi pryder, nid oes nodyn yn cael ei roi yn y drws yn egluro pan mae'r feddygfa wedi gorfod cau ar fyr rybydd. Angen cadw golwg ar y mater.

	h) Sgwar Rhos isaf fyny at Pen y Ceunant – gulleys wedi cau i fyny, angen eu glanhau (GLLW) Clerc wedi derbyn ymateb gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn nodi bu i'r arolygwr archwilio'r system draenio wythnos diwethaf ac roedd pob gwli yn lan ac yn gweithio. Yn ôl eu cofnodion, bu i'r system yma gael ei glanhau ar 19 Awst 2015. **i) Ty Hen, Rhosgadfan (GVT)** Clerc wedi derbyn ymateb gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn nodi y canlynol - "Rydym eisoes wedi trafod y sefyllfa efo perchennog y tir ac wedi amlygu iddi fod ei gweithgareddau yn anfon dŵr a bawiach i'r ffordd. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw'n cymryd sylw o'n cyngor i newid ei threfniadau bwydo ayyb. Fe awn ar ei hol eto ynghylch y sefyllfa. Mewn perthynas â'r ffens, er ei fod mewn cyflwr gwael, nid oedd yn ymddangos i fod yn beryg i ddefnyddwyr y ffordd pan ymwelodd yr arolygwr a'r safle. O ganlyniad, ni allwn fynd ar ôl perchennog ynghylch y mater." **j) Islaw Cae'r Gors, Rhosgadfan - dwr yn casglu yn y lon (MW)** **C**lerc wedi derbyn ymateb gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn nodi y canlynol – "Mae'r arolygwr wedi archwilio'r sefyllfa ac wedi ceisio agor draen i droi'r rhan fwyaf o'r dŵr i'r mynydd. Mae'n debyg y byddai angen agor ffoes o'r newydd am hyd wrth ochr y ffordd i geisio datrys y broblem yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, nid yw'r gyllideb gennym yn bresennol i ystyried gallu gwneud y gwaith yma." **k) Rhosgadfan - Lawr am y pentref am Rhostryfan, ar y troead mae 2 ddraen, gwair wedi tyfu drostynt. Hefyd angen sbio o'r cattle grid i fyny at lon wen, mae'n ofnadwy, draeniau wedi cau. (MW)** Clerc wedi derbyn ymateb gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn gofyn a oes bosib cadarnhau lleoliadau'r ddwy draen ble mae gwair wedi tyfu drostynt. Hefyd ynghylch y gridiau gwartheg, mae'r arolygwr wedi'u cynnwys ar raglen waith y glanhawr gwliau. **l) Pantiau, Rhosgadfan - dumpio rwbel a baw i fyny yn y mynydd (LW).** Clerc wedi adrodd wrth lechyd yr Amgylchedd ond mae angen rhagor o wybodaeth arnynt cyn gallu edrych mewn i'r mater. Nodwyd gan Aelodau mai rwbel a pridd sydd yno, dros y lon i Pantiau. **m) Pwyllgor cae chwarae Rhosgadfan angen cymorth (LW)** Clerc yn nodi ei fod wedi cysylltu i gynnig cymorth. Ymateb gan yr ysgrifenyddes yn nodi eu bod wedi llwyddo i gael grant yn ddiweddar a byddent yn cysylltu gyda'r Swyddog Adfywio ardal pan byddent angen help pellach yn dyfodol agos.
6.	**Derbyn Adroddiadau** **Tap dwr y fynwent** – Clerc yn nodi ei fod yn parhau i aros i'r gwaith gael ei wneud gan Sion, mae oedi gan ei fod yn parhau i aros am y plymar i'w gynorthwyo gyda'r gwaith. Angen ei atoffa eto ac argymell plymar arall. **Dylan Herbet, Scottish Power** wedi cysylltu gyda'r Clerc. Cynnig i ddod draw i gyfarfod i drafod y problemau trydanol yn ardal Llanwnda. Aelodau yn derbyn y cynnig ond bydd rhaglen cyfarfod Chwefror yn llawn oherwydd yn trafod ceisiadau nawdd. Cynnig iddo ddod draw ym mis Mawrth.

Mynwent – Angen sicrhau fod tir newydd y fynwent yn cael ei ffensio. Clerc i gysylltu gyda Fferm Gadlys.

Canolfan Cae'r Gors - Edrych yn addawol y bydd Ffermwyr ifanc yn symud i'r swyddfa ac yn agor y ty ar ddyddiadau penodol. Mae cyfarfd cyfarfod pellach gyda CADW ac yna adroddiad yn mynd nol i pwyllgor rheoli am benderfyniad. Aelodau yn nodi fod pethau gwerthfawr yn y storfa a bydd angen cymryd gofal pan yn sortio rhain.

Llwybr Bryngwyn – Yn sgil cwynion am gwn heb dennyn ar y llwybr, mae'r Clerc wedi cael pris gan gwmni Designer Signs Penygroes am £12 yr un. Derbyniwyd cyngor hefyd gan Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd, mae'n bosib gosod arwyddion o'r math hyn er cwrteisio ond ni allwn orfodi. Nododd RO i'r Clerc ddal ar rhag archebu gan y byddai'n ceisio cael pris rhatach ac adrodd yn ol i'r Clerc. Fel arall, roedd Aelodau yn fodlon i'r Clerc symud ymlaen i archebu 3 arwydd dwy-ieithog ac i Wyn Williams eu gosod ar bolion.

7. **Is-bwyllgorau**
Angen ail edrych ar ffioedd y fynwent, Clerc i wirio pryd gafodd hyn ei wneud ddiwethaf ac adrodd yn ol yn y cyfarfod nesaf.

8. a) Adroddiad Ariannol (i'w gyflwyno yn y cyfarfod)

Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 20 Ionawr 2016

1. Cyfrif Cadw

Balans a ddygwyd ymlaen:	**16,331.55**
+ Llog	2.88
- Transfer i cyfrif siec	2,000.00
Balans ar derfyn busnes 18 Ion 2016	**14,334.43**

2. Cyfrif Siec

Balans a ddygwyd ymlaen:	**4,829.57**
+ Claddiad	100.00
+ Claddiad	230.00
+ Transfer o cyfrif cadw	2,000.00
- 101329 Lleu	7.50
- 101325 Cyflog Clerc Tach	424.40
- 101326 Cyflog Clerc Rhag	424.40
- 101327 Swyddfa'r Post PAYE Tach	95.60
- 101328 Swyddfa'r Post PAYE Rhag	95.60
- 101332 Wyn Williams	926.00
- 101331 Antur Nantlle	144.00
- 101330 Gareth Mitchell	276.00
Balans ar derfyn busnes 18 Ion 2016:	**4,766.07**

Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 20 Ionawr 2016:

Cyflog Clerc Ion	424.40
Cyllid y Wlad Ion	95.60
Mcafee Antivirus Blwyddyn	89.99

	Cyfanswm **609.99** b) **Praesept ariannol 2016/17** Ffurflen wedi ei derbyn gan y Cyngor. Aelodau yn cytuno i gadw y lefel yr un fath a llynedd a'r flwyddyn flaenorol sef £18,200 c) **Trefniadau ceisiadau nawdd 2015/16** Clerc yn atgoffa Aelodau y bydd ceisiadau am nawdd yn cael eu hystyried yn cyfarfod nesaf ar 17 Chwefror. Hysbyseb wedi bod yn y Lleu ac erthygl yn yr Herald, bydd y Clerc hefyd yn atgoffa'r ysgolion.
9.	**Materion Cynllunio** Dim i'w nodi.
10.	**Gohebiaeth a chylchgronnau** **Nodwyd y canlynol:** Cylchlythyr Ambiwlans Awyr Sgwrs ar Newid Hinsawdd - y Storm Berffaith yn Canolfan Llanwnda 4/2/16 & 18/2/16 Llythyr gan Cyngor Gwynedd – nodi eu bod yn adolygu y costau biniau halen a byddent yn cysylltu maes o law. Adroddiad Blynyddol Antur Nantlle 2014/15
11.	**Materion Cyfarfod Nesaf** NE - Cylchfan fingar – pobl yn rhoi yn posteri etc…yna, angen clirio nhw oddi yno, pwy sydd yn gyfrifol? EE – Damwain eto yn mynedfa Ty'n Rhos, car wedi hitio'r wal. Cyngor Gwynedd wedi rhoi arwydd araf ond hwnna wedi ffeidio. Ty'n Rhos wedi ffonio cyngor, neb am ddod allan tan 4ydd chwefror. Angen arwydd yn y lon neu chevron, sawl damwain wedi bod yno. EE - Ger mynedfa Menai Tractors – rhywfaint or wal gerrig wedi dod lawr, lon yn eithaf cul felly gallu bod yn beryglus. RO – Yn gyffredinol, mae'r tyllau yn y lon ar ol y lligofydd wedi gwaethygu. RO – Dros ffordd i Tai Uwch Menai, Saron, lon wedi rhoi. MW – Golau Stryd rhwng 20 a 21 Bro Cadfan. Cyngor wedi dweud i ffonio Scottish power, dwr tu fewn. Ffwrdd ers tair wythnos cyn dolig. NW – Baw ci o gwmpas Rhosgadfan yn ofnadwy. GLlW – Kiosk yn sgwar Rhos Isaf – dim drws arno. EJ – Arwydd golau Ffrwd Cae Du ddim yn gweithio. Oes bosib cael chevrons? **Dyddiad: 17 Chwefror 2015** **Lleoliad: Canolfan Llanwnda**